



Gwasanaeth Tiwmor Niwroendocrin De Cymru

Gordyfiant Bacterol y Coluddyn Bach (SIBO)

Beth yw SIBO?

Ymhlith pobl iach, mae'r coluddyn bach fel arfer yn ardal weddol di-haint ac ychydig o facteria sy'n gallu goroesi yma. Mae bron pob bacteria sy'n byw yn y llwybr gastroberfeddol yn byw yn y colon (coluddyn mawr). Mae'r bacteria yn y colon yn bwysig iawn, gan eu bod yn helpu i dreulio bwyd.

Fodd bynnag, ymhlith rhai pobl, mae llawdriniaeth neu feddyginiaethau penodol yn ymyrryd â phroses reoli arferol y coluddyn a gall patrymau cyfangiadau cyhyrol yn y coluddyn bach newid. Mae hyn yn aml yn barhaol. Yna gall bacteria luosogi a byw o fewn rhywfaint o'r coluddyn bach, neu ym mhob rhan ohono. Gelwir hyn yn 'ordyfiant bacterol y coluddyn bach'. Pan fydd y bacteria yn y coluddyn bach yn cyrraedd niferoedd digon uchel, maent yn dechrau achosi symptomau.

Beth yw symptomau gordyfiant bacterol y coluddyn bach?

Gall gordyfiant bacterol y coluddyn bach achosi nifer o symptomau gwahanol ac amwys. Y symptom mwyaf cyffredin yw dolur rhydd. Gall symptomau eraill gynnwys:

- Carthion gwelw
- Carthion seimllyd
- Gormod o wynt
- Chwyddo
- Chwydu
- Poen
- Rhwymedd

Beth sy'n achosi gordyfiant bacterol y coluddyn bach?

- Llawdriniaeth ar yr abdomen neu'r pelfis, ar ôl i ran o'r coluddyn gael ei thynnu
- Radiotherapi ar gyfer cancer yn yr abdomen neu'r pelfis a all amharu ar batrymau cyfangiad y coluddyn

- System imiwnedd wan, fel yn ystod ac ar ôl cemotherapi
- Diabetes a chlefydau eraill fel sgleroderma, diverticulosis jejunal, pancreatitis cronig a chlefyd Crohn
- Mae fwy na thebyg yn digwydd ymhlith 10% o'r boblogaeth, pan gaiff ei gam-ddiagnosio weithiau fel syndrom coluddyn llidus (IBS).

Sut mae gordyfiant bacterol y coluddyn bach yn cael ei ddiagnosio?

- Prawf anadl sy'n cynnwys yfed hydoddiant siwgr a mesur lefelau hydrogen a nwyon methan yn yr anadl dros gyfnod o amser.
- Mae profion gwaed rhai pobl sydd â gordyfiant bacterol yn weddol anarferol, sy'n dangos haint gradd isel ac yn awgrymu y gallai fod yn bresennol.
- Gastrosgopi (Endosgopi) i edrych ar y coluddyn bach a thynnu hylif o'r perfedd. Os yw'r hylif yn tyfu bacteria yn y labordy, mae'n ddefnyddiol i bennu pa wrthfotigau fydd fwyaf effeithiol.

Nid oes un o'r profion hyn yn hollol gywir. Weithiau bydd yn well gan y meddyg roi treial o wrthfotig i weld a yw symptomau person yn gwella, yn hytrach nag aros i wneud profion i chwilio am ordyfiant bacterol. Gall dod o hyd i'r gwrthfotig cywir gynnwys profi a methu, ac efallai y bydd angen mwy o wrthfotigau yn y dyfodol.

Sut mae gordyfiant bacterol y coluddyn bach yn cael ei drin?

- Gwrthfotigau: weithiau mae angen mwy nag un cwrs
- Profiotigau: nid yw'r rhain ar gael ar bresgripsiwn ar hyn o bryd gan mai ychydig sydd wedi cael eu profi mewn treialon clinigol ond gall profiotigau dros y cownter helpu i gynyddu nifer y bacteria 'da'
- Triniaeth i wneud i'r coluddyn gyfangu yn fwy effeithiol: os gellir gwneud y coluddyn i symud yn fwy effeithlon, gallai hyn atal bacteria rhag tyfu mewn niferoedd digon mawr i achosi problemau. Er enghraifft, un o sgil-ffeithiau cyffur gwrth-iselder o'r enw Paroxetine yw ei fod hefyd yn cyflymu cyfangiadau'r coluddyn bach. Gall hyn fod yn ddefnyddiol mewn dosau isel gyda gordyfiant bacterol.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â

Cath Powell/Beccy Taylor/Kath Denny

029 21842807

NET.service@wales.nhs.uk